BWLETIN

# MANTELL GWYNEDD

MEDI 2026

MANTELL GWYNEDD

## Cronfa Ynni Gwyrdd Gwynedd – £350,000 ar gael i grwpiau lleol



Mae Mantell Gwynedd yn falch o gyhoeddi bod **£350,000** ar gael i'w ddosbarthu ymhlith grwpiau gwirfoddol a chymunedol ledled Gwynedd drwy **Gronfa Ynni Gwyrdd Gwynedd.**

Nod y gronfa yw helpu sefydliadau i wella effeithlonrwydd ynni eu hadeiladau cymunedol, gan gynnwys drwy osod offer carbon isel. Mae grantiau rhwng **£2,000** a **£40,000** ar gael i sefydliadau cymwys.

Mae'r gronfa bellach **ar agor** , felly dyma gyfle gwerthfawr i gael cymorth ariannol.

📅 Dyddiad cau: 30 Medi 2026

Am ragor o wybodaeth , sgwrs, neu becyn cais cysylltwch â:

📧 SwyddogGrantiau@mantellgwynedd.com
📞 01286 672626

*Ariennir drwy Gronfa Twf Lleol Llywodraeth y DU a'i weinyddir gan Mantell Gwynedd*

CYNGOR GWYNEDD

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Funded by UK Government

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# Cofiwch am y newidadau newydd yma!




Mae rheolau newydd ynghylch gweithgareddau a reoleiddir *(regulated activity)* gyda phlant wedi dod i rym yng Nghymru a Lloegr ers y **1af o Fedi.**

Bydd yr eithriad presennol ar gyfer pobl sy'n gweithio neu gwirfoddoli gyda phlant o **dan oruchwyliaeth** wedi cael ei ddileu. Mae hyn yn golygu y gall rhai gwirfoddolwyr nad oeddent gynt yn cael eu hystyried yn rhai sy'n cyflawni gweithgarwch a reoleiddir bellach ddod o fewn y diffiniad.

Dylai sefydliadau adolygu rolau gwirfoddol sy'n cynnwys addysgu, hyfforddi, cyfarwyddo, gofalu am neu oruchwylio plant yn rheolaidd, yn enwedig lle mae goruchwyliaeth wedi cael ei defnyddio i benderfynu a oedd angen gwiriad DBS.

Mewn rhai achosion, gall gwirfoddolwyr bellach fod yn gymwys i gael gwiriad **DBS Manwl,** gan gynnwys gwiriad o'r **Rhestr Plant a Waherddir.**

Dylai sefydliadau ystyried pob rôl yn unigol a gwirio'r meini prawf cymhwysedd yn ofalus.

Cysylltwch gyda Mantell Gwynedd am unrhyw wybodaeth neu arweiniad pellach: gwirfoddoli@mantellgwyned.com / 01286 672 626

# CANOLFAN GWIRFODDOLI

## Ymunwch efo ni ar gyfer ein digwyddiadau fis Medi a Hydref:






# Wyddoch chi?




**32%**

o bobl dros 16 oed yn gwirfoddoli yng Nghymru yn 2024/25

Cynnudd **30%** o 2022/23

**10,407**

gwirfoddolwyr wedi cofrestru ar wefan Gwirfoddoli Cymru

**1,480**

mudiadau wedi cofrestru ar wefan Gwirfoddoli Cymru

**2,681**

Cyfleoedd gwirfoddoli newydd

**Hysbysebwch eich cyfleoedd a recriwtio drwy wefan Gwirfoddoli Cymru**

Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales

**Ffynhonnell:** Gwirfoddoli Cymru (Chwefror 2026)

Prosiect Gafael Llaw i Wirfoddoli · Helping Hand to Volunteer Project

# Dros 500 Awr o Wneud Gwahaniaeth

Mae gwirfoddoli wedi chwarae rhan bwysig yn nhaith Ann Williams, gan ei helpu i fagu hyder, datblygu sgiliau newydd a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl eraill.

Roedd Ann eisoes wedi cael profiad o wirfoddoli mewn siop elusen Sense ym Mangor cyn dod i gysylltiad â Mantell Gwynedd , lle daeth yn aelod gwerthfawr o'r tîm. Pan gaeodd y siop, roedd hi'n awyddus i ddod o hyd i gyfle newydd er mwyn parhau i adeiladu ar ei phrofiad, magu hyder a gwella ei chyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

Gyda chefnogaeth prosiect Gafael Llaw i Wirfoddoli Mantell Gwynedd, daeth Ann o hyd i gyfle newydd gyda siop y Groes Goch Brydeinig yng Nghaernarfon, gan ddechrau gwirfoddoli un bore yr wythnos.

Mae ymrwymiad Ann i wirfoddoli hefyd wedi arwain at gyflawniad arbennig iawn. Mae hi bellach wedi cwblhau dros 500 awr o wirfoddoli, ac wedi derbyn tystysgrif gan Gynllun Gwirfoddoli Gwynedd i gydnabod y garreg filltir hon.




Mae'r cyflawniad yn adlewyrchu nid yn unig faint o amser mae Ann wedi'i roi i wirfoddoli, ond hefyd ei hymroddiad a'r cyfraniad gwerthfawr y mae wedi'i wneud dros gyfnod estynedig.

# CANOLFAN GWIRFODDOLI

O ddechrau ei thaith yn awyddus i fagu hyder a phrofiad, mae Ann bellach yn wirfoddolwr profiadol sydd hefyd yn defnyddio ei sgiliau a'i hyder i gefnogi pobl eraill.

Wrth grynhoi'r hyn y mae gwirfoddoli wedi'i olygu iddi, dywedodd Ann: "Mae gwirfoddoli wedi bod yn brofiad amhrisiadwy a chyfle i greu ffrindiau newydd.



"Dwi wedi cael fy nghefnogi gan y prosiect Gafael Llaw i Wirfoddoli pob cam o'r ffordd, mae o wir yn wasanaeth cefnogol a chymwynasgar. Roeddwn yn arfer bod yn rhy nerfus i wneud pethau neu fynd ar ôl cyfleoedd, ond tydw i ddim mwy."

Wrth edrych yn ôl ar ei phrofiad gyda Gafael Llaw i Wirfoddoli, pwysleisiodd Ann werth cael rhywun i wrando arni, rhoi opsiynau iddi a'i chefnogi i ddod o hyd i'r cyfle cywir.

Mae taith Ann yn enghraifft wych o'r ffordd y gall y cyfle gwirfoddoli cywir, ynghyd â chefnogaeth wedi'i theilwra i'r unigolyn, helpu rhywun i ddatblygu ei hyder a'i sgiliau, creu cysylltiadau newydd a gwneud cyfraniad gwerthfawr i'w gymuned.

Am fwy o wybodaeth am wirfoddoli a sut allwch chi wneud gwahaniaeth, cysylltwch gyda ni:

gwirfoddoli@mantellgwynedd.com
01286 672626
www.mantellgwynedd.com

# IECHYD A LLESIANT

*Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hyn,*
*mis ymwybyddiaeth Cancr y Fron ac ADHD*

## IECHYD DA 2026

**01.10.26 10 - 3**

Byw'n Iach Glan Wnion Dolgellau LL40 1LH

| | |
|---|---|
| amrywiol stondinau | various stalls |
| gwybodaeth | information |
| sesiwn blasu | taster sessions |
| rhoddion | freebies |
| sgrinio iechyd | health screening |
| a mwy ... | and more... |
| ***Gwell IECHYD & LLESIANT*** | *Improved HEALTH & WELLBEING* |

am ddim

free

sioned.roberts@mantellgwynedd.com


**Cofrestrwch am stondin CYN 29/09**
**Register for a stall BEFORE 29/09**



*International Day of Older People,*
*Breast Cancer & ADHD Awareness month*

# RYDYM YN HYB CODI SBWRIEL

Offer i'w fenthyg AM DDIM i gasglu sbwriel





## Cysylltwch am ragor o wybodaeth

Mantell Gwynedd

Oriau agor Llun - Gwener / 9yb-5yh
ymholiadu@mantellgwynedd.com
01286 672 626
Ewch i'n gwefan i gwblhau'r ffurflen ymholiad
www.mantellgwynedd.com

MANTELL GWYNEDD
CANOLFAN GWIRFODDOLI • VOLUNTEER CENTRE

Hyb Codi Sbwriel